# CABINET – 11 MAWRTH 2020

**PWNC:** **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL, AMCANION A CHAMAU GWEITHREDU 2020- 2024**

**ADRODDIAD GAN : CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

---

1.1 Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Amcanion a Chamau Gweithredu 2020-2024 drafft amgaeedig ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 25 Chwefror 2020. Gofynnwyd i aelodau am eu barn ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar 11 Mawrth 2020.

1.2 Hysbyswyd y pwyllgor craffu fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru wedi dod i rym ar 6 Ebrill 2011 a'i bod yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cyhoeddus i ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd. Mae gan y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) ar waith ers 2016, a rhaid iddo yn awr gael ei ddiweddaru ar gyfer y cylch 4 blynedd nesaf.

1.3 Gofynnodd aelodau am eglurhad ar Amcan 2 o Gynllun Corfforaethol 2018-2023, galluogi cyflogaeth, sydd wedi'i adlewyrchu hefyd fel rhan o Amcan Cydraddoldeb 2. Gofynnodd dau aelod am wybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol i gynyddu cyflogaeth ac am nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac yn manteisio ar gyfleoedd masnachol yng nghanol trefi. Nododd swyddogion fod y materion a godwyd yn ymwneud mwy â pholisïau adfywio na'r Cynllun Cydraddoldeb, a nododd Uwchgynllun Drafft Blaenau'r Cymoedd sy'n defnyddio Cronfa Fuddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i hybu twf economaidd y rhanbarth.

1.4 Holodd Aelod am y cymorth sydd ar gael i Aelodau Etholedig a'r sector gwirfoddol er mwyn eu galluogi i hybu a hwyluso cydlyniant cymunedol. Materion a geir yn y Cynllun Drafft o dan Amcan Cydraddoldeb 3: hybu a hwyluso cymunedau cynhwysol a chydlynol. Dywedodd swyddogion y gellid trefnu sesiynau hyfforddi gyda Swyddogion Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol a nodwyd gwahanol fathau o ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n digwydd yn awr. Cafwyd trafodaeth ar yr angen i chwilio am ffyrdd newydd a gwell o ymgysylltu ac uno cymunedau er mwyn eu gwneud yn fwy cynhwysol a chydlynol. Awgrymodd aelodau y gellid trefnu seminarau cyhoeddus gyda chymorth Swyddogion Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i wella ymgysylltu â'r cyhoedd. Cafwyd trafodaeth hefyd ar oblygiadau'r toriadau posibl yn y dyfodol i'r arian sydd ar gael i'r sector gwirfoddol. Hysbyswyd Aelodau fod cyllid y dyfodol yn cael ei ystyried gan nad yw Cytundebau Lefel Gwasanaeth â'r sector gwirfoddol wedi eu hadolygu ers 2008.

1.5 Codwyd mater amddifadedd gan Aelodau fel ffactor allweddol a all arwain at achosion o anghydraddoldeb. Soniodd swyddogion wrth Aelodau am yr enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth oedd wedi digwydd i fynd i'r afael â heriau a achoswyd gan amddifadedd. Tynnwyd sylw at adfywio Ystâd Tai Lansbury Park yng Nghaerffili fel enghraifft.

1.6 Gofynnodd Aelodau am eglurhad o ran Amcan Cydraddoldeb 7: lleihau'r Bwlch Cyflog

rhwng y Rhywiau. Roedd un Aelod am wybod pam mae swyddi rhan amser, sy'n cael eu llenwi'n bennaf gan fenywod, yn talu cyflog yn y chwarteli isaf yn ôl data a geir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Dywedodd swyddogion fod y data'n dangos fod swyddi rhan amser yn talu cyflogau yn y chwarteli isaf, beth bynnag fo rhyw deiliad y swydd. Ond, am resymau cymdeithasol, mae'r cyfrifoldeb am ofal plant yn cael ei ysgwyddo'n anghymesur gan fenywod ac felly mae menywod yn dueddol o ffafrio swyddi rhan amser oherwydd eu gofalon teuluol. Tynnodd un Aelod sylw at yr awgrym i adolygu a diweddaru polisïau Adnoddau Dynol yn rheolaidd i gynnwys materion fel gweithio hyblyg, opsiynau rhan amser neu rannu swyddi a rhannu absenoldeb rhiant. Awgrymwyd fod angen ymateb mwy arloesol i'r mater. Dywedodd swyddogion y byddai adolygiad yn helpu'r Cyngor i ddeall maint ac achosion unrhyw fylchau mewn cyflogau ac i ganfod unrhyw faterion sydd angen sylw. Disgrifiwyd sut y byddai cynllun gweithredu yn y dyfodol yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a amlygir. Cafwyd trafodaeth ar ragor o fesurau fel y posibilrwydd o ddatblygu cyfleusterau gofal plant yn adeiladau'r Cyngor. Dywedodd swyddogion y byddai adroddiad ar y Bwlch Cyflogau rhwng y Rhywiau yn mynd gerbron y Cabinet fis nesaf. Clywodd Aelodau hefyd fod y cyngor yn hyderus nad oedd unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu cyflogau gwahanol i ddynion a menywod sy'n gwneud yr un gwaith neu waith cyfatebol. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ganlyniad i'r rolau sy'n cael eu llenwi gan ddynion a menywod a'r cyflogau a delir am y rolau hynny.

1.7 Crynhodd y Cadeirydd y sylwadau a gafwyd gan Aelodau yn ystod y cyfarfod. Nodwyd y dylai'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol gynnwys y canlynol:

(i) Cynnal seminarau cyhoeddus mewn cymunedau i gynyddu Cydlyniant Cymunedol. Gofynnir i Swyddogion Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i edrych ar ffyrdd newydd o hyrwyddo a chynyddu ymgysylltu â'r cyhoedd.
(ii) Edrych ar ffyrdd newydd o ddileu'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, ac roedd ei leihau wedi eu nodi fel Amcan Cydraddoldeb yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft.

1.8 Ar ôl ystyried a thrafod argymhellodd y Pwyllgor Polisi ac Adnoddau yn unfrydol fod y Cabinet yn:

(i) Rhoi ystyriaeth lawn i'r pwyntiau yn 1.7.
(ii) Cyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Amcanion a Chamau Gweithredu 2020-2024 i'r Cyngor i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu fel polisi'r Cyngor.

1.9 Gofynnir i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r argymhellion uchod gan y Pwyllgor Craffu.

Awdur: Mark Jacques, Swyddog Craffu – jacqum@caerphilly.gov.uk

Atodiadau:

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau 25 Chwefror 2020 - Eitem 8 ar yr Agenda